CYNGOR CYMUNED PISTYLL
COFNODION CYFARFOD MISOL

DYDDIAD	**Nos Fawrth – 10fed o Fedi, 2024**
AMSER	**7 y.h.**
LLEOLIAD	**Festri Capel Isa, Llithfaen**
CADEIRYDD	**Gethin Jones**

1.	**CROESO**
	Croesawodd y Cadeirydd Gethin Jones **(GJ)** bawb i'r cyfarfod. **YN BRESENNOL:** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Lois Fychan **(LF)**; Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** Ynyr Ellis **(YE);** Olwen Roberts **(OR);** Emlyn Williams **(EW);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)**
2.	**YMDDIHEURIADAU**
	DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN Sianelen Pleming **(SP);** Derek Thomas **(DT).**
3.	**CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 2024**
	Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan OS gydag LF yn eilio
4.	**MATERION YN CODI**
	a) **MAINC LON CARNGUWCH** Y mainc bellach wedi ei archebu ac ei sefydlu gan G Jones, anfoneb I'w gymeradwyo. **b)** **TWMPATHAU /STRIBEDI CYFLYMDER I BISTYLL** Nid oedd diweddariad na rhaglen waith wedi ei dderbyn. **c)** **OW – GORDYFIANT YM MHISTYLL** Wedi ei ychwanegu i raglen waith Priffyrdd Dwyfor. **d)** **SP - GÔR YRRU AR LON RHOSYDD** Ail adroddwyd y gwyn i'r Adran Priffyrdd gan gopïo Mabon ap Gwynfor ac GJ i'r gohebiaeth. Nid oedd yr Adran Priffyrdd yn fodlon gweithredu fwy hyd nes derbyn mewnbwn yr AS. Cynigiodd yr AS i gyfarfod a'r aelodau i drafod ar leoliad. Adroddodd OR bod dau ddamwain wedi digwydd ar y lon yn ddiweddar gyda dau gar wedi mynd i'r ffos. Cais gan GJLJ i adrodd i'r Cyngor Sir bod angen peipen yn y ffoes, rhannodd OR lyniau. **e)** **CLOCH Y GANOLFAN** Cais wedi ei wneud i'r gweithwyr ei ail lleoli. **f)** **OR – PONT BRYN CELYN LLIFTHAEN** Adroddwyd cwyn am ordyfiant a llifogydd ar y bont i Briffyrdd Dwyfor. Ychwanegwyd i'w rhaglen waith. Cais pellach i beintio araf ar y pont.

	g) <u>GORDYFIANT YN LLITHFAEN</u> Adroddwyd y gwyn i Briffyrdd Dwyfor, y gwaith wedi ei ychwanegu i'r raglen waith. Adroddodd OR bod rhan o'r gwaith wedi ei wneud. **h) <u>SBWRIEL YN AWELFRYN</u>** Roedd y clerc wedi gohebu gydag Cwmni Adref yn adrodd cwyn am sbwriel a cheir heb olwynion mewn gerddi. Er cydnabod derbyn yr e.bost nid oedd gohebiaeth bellach wedi ei derbyn. **i) <u>JG- DRAIN A MIEIRI MYNWENT LLITHFAEN</u>** I'w drafod yn y cyfarfod nesaf. **j) <u>GJLJ- PANT YN LÔN DROS FFORDD AC ARFRYN LLITHFAEN</u>** Adroddwyd y gwyn i Briffyrdd Dwyfor, wedi ei ychwanegu i'w rhaglen waith. Adroddodd GJLJ nad oedd dim wedi ei wneud hyd yn hyn
5.	**DATGAN DIDDORDEB**
	Dim yn cael ei ddatgan
6.	**DIWEDDARIADAU ASEDAU**
	Popeth mewn cyflwr derbyniol
7.	**CEISIADAU CYNLLUNIO**
	Dim i'w trafod
8.	**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR**
	Cymeradwywyd yr adroddiad a mabwysiadwyd yr argymhellion.
9.	**BIN GWASTRAFF CI PEN DRAW LLITHFAEN AM BISTYLL**
	Yn dilyn asesiad GJLJ o gyflwr caead y bin adroddodd bydd modd ei atgyweirio. Gwirfoddolodd i ddarparu'r gwaith.
10.	**SAFLE WE Y CYNGOR**
	Nid oedd diweddariad pellach
11.	**LLECYNNAU ANGEN EU HARDDU YN LLITHFAEN**
	I'w drafod yn y cyfarfod nesaf
12.	**Y GANOLFAN, LLITHFAEN**
	Trefniadau mewn lle i agor y Ganolfan yn swyddogol ar ddiwedd y mis.
13.	**MATERION LLEOL**
	a) OR – Tyllau ar tro Lon Isaf am Pentreuchaf o groes cyn cyrraedd Lon Ffosydd, hwn yn hen gwyn ac yn ail agor. b) GJLJ – Bagiau baw cwn yn cael eu taflu ar y lon top y nant – ail ofyn i'r Cyngor Sir am ganiatâd i leoli bin, gofyn i Nant gefnogi'r cais.

c) LF – Dwy garafán heb ganiatâd ar gae hir Tŷ Rhos ar Bont Rhyda ym mhlwyf Llannor gohebu a Cyngor Plwyf LLannor ar Cyngor Sir.

d) LF – Ragwort yn tyfu yn y pentref.

14. HYFFORDDIANT

Dim i'w trafod

15. GOHEBIAETH A GWYBODAETH

a) Arolwg GwyrddNi
b) Bwletin newyddion Mantell Gwynedd
c) Polisïau a Grymoedd Un Llais Cymru
d) Newyddion gan y Tîm Cymorth Argyfwng Costau Byw
e) Arwyddion 'Croeso' uniaith Gymraeg
f) Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn - 10.09.2024
g) Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion
h) Cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 (ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd)
i) Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - Galw am Safleoedd

16. CYLLID

+ CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024		**£ 17,184.69**
+ CYFRIF CADW MAWRTH 2024		**£ 2,717.05**
- LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC		**£ 3,936.75**
+ GWARGED 2024/ 2025		**-£ 409.43**
= CRONFA'R CYNGOR	**=**	**£ 15,555.56**

I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC

CYFRIF CYFREDOL - 01 o Orffennaf I 31 o Orffennaf 2024

Balans Agoriadol		£ 16,331.50
Derbyniadau	+	£ -
Gwariant	-	£ 2,731.20
Balans Cau	=	£ 15,171.41

CYFRIF CADW - 07 Mai I 6 o Awst 2024

Balans Agoriadol		£ 2,717.05
Derbyniadau	+	£ 14.15
Gwariant	-	£ -
Balans Cau	=	£ 2,717.05
	=	**£ 17,888.46**

LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC

-	Archwilwyr Cymru 20-21	**201317**	£ 343.00
-	Archwilwyr Cymru 21-22	**201318**	£ 376.00
-	Hughes Jones Dyson	**201320**	£ 240.00
-	Glasdon	**201321**	£ 602.87
		=	**£ 1,561.87**

LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO

-	Cyflog Awst y Clerc	**201323**	£	274.60
-	Treuliau		£	30.49
-	Cyflog Medi y clerc	**201324**	£	274.60
-	Treuliau		£	30.49
-	G. Jones Builder Ltd	**201325**	£	157.00
		=	**£**	**767.18**
SYDD YN CYTUNO GYDA CRONFA'R CYNGOR		**=**	**£ 15,559.41**	
-	**LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)**	-	-£	15.70
-	**LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P)**		£	242.00
=	**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON**	**=**	**£ 15,333.11**	

17. **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR**

Y Ganolfan Llithfaen am 7 nos Fawrth yr 8fed o Hydref, 2024